

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn:Tel: 07896964120

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

**Cofnodion Cyngor Tref Y Bala**

**4/1/2018**

**Presennol:** Y Maer Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Sharon Evans, Dilys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

**Cyngor Gwynedd:** Ifan Llewelyn Jones, *Hunaniaith*

**Absennol:** Rhys Evans

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i'r Cynghorwyr. Adroddodd ei bod wedi gwahodd disgyblion o Ysgol y Berwyn i gyfarfod Chwefror.
2. **Cyflwyniad:** Rhoddodd Mr Ifan Llewelyn Jones o Hunaniaith Gwynedd gyflwyniad ar y gwaith o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Dywedodd fod ei adran yn barod iawn i helpu mudiadau i gynnal eu gweithgareddau'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft trwy ddysgu Cadeiryddion sut i dynnu trafodaethau yn ôl i'r Gymraeg ar ôl mewnbyn gan aelodau sy'n methu siarad Cymraeg; trwy ddarparu cyfieithydd ar gyfer cyfarfodydd er mwy galluogi'r mwyafrif o'r drafodaeth fod drwy'r Gymraeg; trwy ddarparu geirfa ddefnyddiol ar gyfer posteri neu gyhoeddiadau Gweplyfr (*facebook*); trwy prawf-ddarllen cyhoeddiad Cymraeg, ac yn y blaen. Nod Hunaniaith yw cadw'r iaith Gymraeg yn rhan o fywydau pobl a chyfrannu tuag at nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. I'r perwyl hwn dywedodd fod gan y Cyngor Tref rôl i'w chwarae ac awgrymodd fod y Cyngor yn rhoi amod wrth ddyrannu arian i fudiadau lleol fod yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yng ngweithgareddau'r mudiadau.

CYTUNWYD i symud ymlaen i annog hyrwyddo'r Gymraeg, gan gofio'n arbennig am y mudiadau lleol sy'n derbyn nawdd gan y Cyngor Tref.

3. **Derbyn adroddiad:** Derbyniwyd adroddiad Cynghorwyr a ymwelodd â charchar Y Berwyn ddiwedd mis Tachwedd yn dilyn anfodlonrwydd lleol am enwi un o'r "tai" yn "Bala". Cafwyd argraff dda iawn o'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yn y carchar i adfer bywydau'r dynion. Dywedodd awdurdodau'r carchar eu bod yn croesawu grwpiau bychan ar ymweliad. Mynegodd y cynrychiolwyr wrth y Swyddogion fod defnyddio enw'r "Bala" ar un o'r tai wedi codi teimladau cryfion yn y dref. Yn dilyn y cyfarfod derbyniwyd llythyr o ymddiheuriad am beidio ymgynghori'n lleol cyn dewis yr enw "Bala".

CYTUNWYD i ryddhau'r llythyr i'w gyhoeddi yn "Y Cyfnod".

4. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

5. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau buddiant.
6. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 14/12/17.
7. **Materion y Clerc:** CYTUNWYD i atgoffa mudiadau o'r angen i wneud cais am nawdd y Cyngor Tref erbyn 22/2/18, ac i gynnwys manylion ariannol gyda'r cais.
8. **Cyngor Gwynedd:** Adroddodd Dilwyn Morgan, y Cyngorydd Sir, am y gwaith sy'n bwrw ymlaen ar safle Ysgol y Berwyn, gan ddweud y bydd angen enwebu cynrychiolydd o'r Cyngor Tref i wasanaethu ar y corff cysgodol a fydd yn gofalu am adnoddau cymunedol nes bod y cyrff eraill yn weithredol. CYTUNWYD i roi enw Eifion Roberts ymlaen pan ddaw'r cais.
- Mynegodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan bryder fod y Swyddfa Post yn cau yn ei safle presennol ond roedd yn diolch fod addewid ganddynt i gynnal y gwasanaeth yn y dref.
- Roedd Dilwyn Morgan hefyd wedi ysgrifennu i fynegi ei bryder am ddyfodol adeilad hanesyddol Banc Barclays.
9. **Toileddau Cyhoeddus:** Mae disgwyl i'r gwaith adfer cael ei wneud ac wedyn fe fydd y Cyngor Tref mewn sefyllfa i gyfrannu'n ariannol tuag at gadw Toileddau'r Grîn ar agor. Mae'r Cyngor Tref eisoes yn cyfrannu at gadw Toileddau'r Plase ar agor.
10. **Lloches bws:** CYTUNWYD i gysylltu ymhellach gyda NMWTRA a Llywodraeth Cymru gan ein bod wedi bod yn aros ers cyn yr haf i'r safle parcio ar gyfer yr anabl cael ei ddynodi wrth yr Eglwys Gatholig. Ni ellir symud ymlaen i gael caniatâd cynllunio a gosod lloches bws hyd nes bod y safle parcio anabl wedi ei ddynodi.
11. **Nadolig:** Derbyniwyd rhai sylwadau fod y coed bach ar fusnesau yn hwyrach yn cyrraedd eleni nag yn y gorffennol. Roedd bodlonrwydd gyda'r niferoedd a oedd wedi mynychu'r Noson Siopa Hwyr.
12. **Materion Cynllunio:** CYMERADWYWYD cais cynllunio NP5/53/L139C sef adeiladu estyniad unllawr i'r edrychiad cefn, T J Roberts, Tryweryn House, Heol yr Orsaf.
13. **Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol a'r rhagolygon at ddiwedd y flwyddyn ariannol. CYTUNWYD i dalu anfonebau'r mis a chostau swyddfa am y flwyddyn 2017.

Derbyniwyd adroddiad yr Is Bwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 6/12/17 a diolchwyd i'r aelodau am eu gwaith trylwyr. CYTUNWYD gyda'r cynnwys a chytunwyd ymhellach i anfon gair at John Roberts, y cyn- archwilydd mewnol, i ddiolch iddo am ei waith cywir a thrylwyr bob amser. CYMERADWYWYD dewis yr is-bwyllgor o Ms Luned Fôn Jones fel Archwilydd Mewnol cyfrifon 2017-18.

Rhodddwyd ystyriaeth fanwl i'r Gyllideb ar gyfer 2018-19. CYTUNWYD i ofyn am ychwanegiad gwerth £1.60 i gartref Band D yn y Praesept. Mae hyn yn cynnwys rhagdybiaeth y bydd angen cyfrannu at gadw'r ddau safle toileddau cyhoeddus ar agor yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y Cyngorwyr yn ymwybodol y byddai o bosib angen cwtdogi ar gyfraniadau i fudiadau a gweithgareddau'r Nadolig y flwyddyn nesaf wrth gadw'r ychwanegiad mor isel â hyn.

**10. Partneriaeth Penllyn:** nid oedd adroddiad diweddar gan y cynrychiolwyr.

**11. Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad ar eu cyflwr: mae baner y Domen wedi goroesi'r storm ddiweddar, ond cytunodd J C Williams i adnewyddu'r faner wrth y Ganolfan Hamdden sydd wedi dirywio yn yr wythnosau diwethaf. Diolchwyd i Carol Rowlands am ei hadroddiad.

Adroddwyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu'n ddiweddar i osod mwy o feinciau ar y llwybr hyd glan yr afon; CYTUNWYD i holi ai rhodd i'r Cyngor Tref fyddai'r meinciau hyn, er mwyn sefydlu pwy fydd yn gyfrifol am yswiriant a gwaith cynnal.

*Amser gorffen: 9.30pm*